Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Sir Caerfyrddin – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2026



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Cipolwg ar yr archwiliad | 5 |
| Canfyddiadau archwiliad y cyfrifon | 6 |
| Canfyddiadau’r archwiliad o berfformiad | 8 |
| Ansawdd archwilio | 10 |
| Rhagor o wybodaeth | 11 |

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon na defnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu e-bostiwch post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cyflwyniad



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'n bleser gennyf rannu fy Nghrynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor). Mae'n crynhoi prif ganfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2025 a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddais farn ar a oedd y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol.

Mae fy nhîm archwilio hefyd wedi asesu a yw'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, ac wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae fy nhîm archwilio wedi adolygu trefniadau rheoli risg a seiberddiogelwch y Cyngor. Fel y nodir yn fy nghynllun archwilio, mae'r adolygiadau hyn wedi'u cynnal yn unol â safonau Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Mae'r canfyddiadau manwl yr archwiliad ar gyfer pob un o'm hadolygiadau wedi'u nodi yn yr adroddiadau priodol y mae fy nhîm archwilio wedi'u cyflwyno trwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiadau archwilio perfformiad ar gael ar wefan Archwilio Cymru ac mae dolenni pellach ar gael yn y crynodeb.

Dylid rhannu'r Crynodeb Archwilio Blynyddol gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yna byddaf yn sicrhau bod y crynodeb ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion y Cyngor am eu cymorth a'u cydweithrediad trwy gydol fy archwiliad.

# Cipolwg ar yr archwiliad

Derbyniais y cyfrifon drafft yn unol â'r dyddiad cau statudol ar 30 Mehefin 2025. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a'r papurau gwaith yn dda.

Cyhoeddais farn ddiamod ar y cyfrifon cyn y dyddiad cau statudol ar 31 Hydref 2025. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon. Adroddwyd un mater arwyddocaol arall.

Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad fod lle i gryfhau'r modd y mae'r Cyngor yn nodi'r risgiau mwyaf arwyddocaol i gyflawni ei amcanion strategol.

Gwnaeth fy nhîm archwilio argymhellion i'r Cyngor ym mhob un o'r adolygiadau. Roedd y rhain yn cynnwys cryfhau ei drefniadau ar gyfer nodi, rheoli ac adrodd risg.

Mae rhywfaint o waith yn weddill o hyd o'm Cynllun Archwilio dyddiedig Ebrill 2025. Mae fy nhîm yn disgwyl cwblhau'r gwaith hwn erbyn Mehefin 2026.

# Canfyddiadau archwiliad y cyfrifon

Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau/cronfeydd wrth gefn net, cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr, a llif arian. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar a oedd y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol ac yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'w harchwilio ar 30 Mehefin 2025. Roedd hyn yn unol â'r dyddiad cau sef 30 Mehefin 2025 a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn dda yn gyffredinol.

## Fy marn archwilio

Rhaid i mi adrodd materion sy'n codi o fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddais y materion hyn yn fy Adroddiad Archwilio Cyfrifon i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24 Medi 2025.

### Cywirdeb paratoi

Gwnaed nifer o newidiadau i'r cyfrifon drafft a oedd yn deillio o fy ngwaith archwilio.

Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

Adroddwyd un mater arwyddocaol arall mewn perthynas â chryfhau'r dystiolaeth ategol ar gyfer prydlesi a'u cyfrifo.

Nid wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (fel sy'n berthnasol i'm harchwiliad), ac ni nodais unrhyw argymhellion.

Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a'r canllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a fy ngwybodaeth am y Cyngor.

Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Cyngor wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir a chyhoeddais farn archwilio diamod arnynt.

## Cwblhau archwiliad

Cyhoeddais y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o’r cyfrifon ar gyfer 2024-25 wedi'i gwblhau ar 25 Medi 2025.

## Gwaith cyfrifon eraill sy’n dal i fynd rhagddo

Yn ogystal â'm cyfrifoldebau am archwilio cyfrifon y Cyngor, mae gennyf hefyd gyfrifoldeb am ardystio nifer o hawliadau grant a ffurflenni.

Nid yw'r gwaith hyd yma wedi nodi unrhyw broblemau sylweddol.

Ar adeg creu’r adrodd, roedd fy nhîm archwilio yn dal i ymgymryd â gwaith grantiau yn y Cyngor. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn 31 Ionawr 2026.

# Canfyddiadau'r archwiliad o berfformiad

## Adolygiad o drefniadau rheoli risg corfforaethol

Ystyriodd fy nhîm a yw trefniadau rheoli risg corfforaethol y Cyngor yn cefnogi cyflawni ei amcanion strategol.

Canfyddais ei bod yn amlwg bod uwch arweinwyr yn Sir Gaerfyrddin yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli risgiau corfforaethol. Yn gadarnhaol, mae'r Cyngor wedi adolygu a gwerthuso ei drefniadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw wedi ymgorffori argymhellion blaenorol yn llawn eto. Mae hyn yn golygu bod ein harchwiliad wedi canfod meysydd tebyg i'w gwella i'r rhai a amlygwyd mewn adolygiadau blaenorol. Er enghraifft, mae lle o hyd i gryfhau'r modd y mae'r Cyngor yn nodi'r risgiau mwyaf arwyddocaol i gyflawni ei amcanion strategol.

Fe wnes bedwar argymhelliad gyda'r nod o wella trefniadau rheoli risg y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys nodi, rheoli, monitro ac adrodd risg, yn ogystal â gwerthusiad y Cyngor o'i drefniadau.

## Archwiliad o drefniadau seiberddiogelwch

Edrychodd fy nhîm ar drefniadau seiberddiogelwch a gwydnwch y Cyngor.

Oherwydd natur y pwnc, penderfynodd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor dderbyn ein hadroddiad mewn sesiwn eithrio, ac felly nid yw'r adroddiad hwn wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.

## Mae gwaith archwilio perfformiad yn dal i fynd rhagddo

Ar adeg yr adroddiad, mae'r adolygiadau canlynol o Gynllun Archwilio 2025 yn mynd rhagddo yn y Cyngor:

- adolygiad thematig – heriau recriwtio a chadw;
- adolygiad lleol – gwrthsefyll twyll; ac
- adolygiad lleol – cynnal a chadw priffyrdd.

Yn ogystal â'r adolygiadau uchod, byddwn hefyd yn cyhoeddi ein hadolygiad rhanbarthol o drefniadau Gofal Heb ei Drefnu ar draws Iechyd a Llywodraeth Leol.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell o sicrwydd i ddangos sut rydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Rydym yn destun craffu annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. Am ragor o wybodaeth gweler Adroddiad Ansawdd Archwilio 2024.

### Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwyliaeth ac adolygu

### Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technelogol

### Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Rhagor o wybodaeth

Mae gan Archwilio Cymru ystod o wybodaeth arall i gefnogi'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i barhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru.

**Ewch i'n gwefan i weld:**

- Ein cyhoeddiadau sy'n ymdrin â'n gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.
- Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.
- Offer data i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well.
- Manylion ein gwaith Arfer Da a'n digwyddiadau gan gynnwys rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio.
- Ein cylchlythyr sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.